### *Grŵp Help Llaw*

Yn ddiweddar, collwyd un o'n haelodau ffyddlon, sef Mrs Megan Davies, Garn Cottage. Byddwn yn colli ei chwmni'n fawr a'i chefnogaeth dawel, hael i weithgareddau'r Grŵp.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Mrs Gweneth Jones, Y Lasynys, ar farwolaeth sydyn ei phriod. Roedd Raymond yn un o'r cymwynaswyr tawel, parod hynny fyddai'n ein helpu i lwytho 'Bwyd i Bosnia' o flwyddyn i flwyddyn. Cawsom adroddiad llawn am daith Eric Harries i Bosnia, gyda gwerthfawrogiad a diolch cynnes am gyfraniad y Garn.

Rydym yn edrch ymlaen at glywed hanes taith Mrs Gwenda Edwards i Pastuva, Lithuania, ym mis Mehefin, ac at gael gwybod mwy am y modd y gallwn ni helaethu ar ein cymorth i'r tlodion yno, yn enwedig y plant.

Byddwn yn ailgychwyn ein cyfarfodydd brynhawn Mercher, 13 Medi am 2.30 pm. Os na allwch ddod i'r cyfarfodydd, byddwn yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth i waith y Grŵp.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 10 Medi i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net


Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 22 www.capelygarn.org Haf 2006



*Ysgrifennydd*

Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
(01970) 828147

***Ffydd i'r Dyfodol: 'Cred yn Nuw'***

Dyma gyflwyno rhifyn Haf 2006 o *Gair o'r Garn*, sef y rhifyn cyntaf i'w ddarparu a'i ddosbarthu ers i'r Parchedig Robert W Jones ymddeol. Bellach mae ef a'i briod Rhian wedi mudo tua'r gogledd-ddwyrain. Dymunwn bob bendith a llewyrch iddynt wrth ymgartrefu yn Wrecsam. Mawr yw ein diolch iddynt a'n gwerthfawrogiad o'u bugeiliaeth ofalus a charedig. Cawsom oll brofi arweiniad ysbrydol drwy weinidogaeth rymus y Parchg R W Jones, a amlygwyd yn ei ffydd angerddol ac argyhoeddedig yn ei Arglwydd. Mae effaith ei holl weithgaredd wedi treiddio i'n bod, ac fe bery'n wastadol – y cwbl hyn a grynhowyd mor feistrolgar gan Mr Vernon Jones yn ei englyn godidog.

''Dydyn nhw'n ddyddiau da,' meddai sawl un. Yr "haul anhreuliedig yn gwahodd tua'r mynydd", chwedl R Williams Parry … ac i'r traeth. Dyma gyfnod meddwl am hoe yn ystod yr haf i atgyfnerthu a chael profiadau newydd a rhyfeddol – natur a thirwedd, iaith a diwylliant, a hefyd ddulliau addoli.



Felly y bu y llynedd i dad a mab pan fu Gethin yn ddigon graslon i ddod a gwarchod ei dad ar daith i Barcelona. Dyma ddinas yr oeddem ill dau am ymweld â hi, er efallai bod ein cymhelliad gwreiddiol ychydig yn wahanol … a do, bu rhaid ymweld â'r Nou Camp, 'eglwys gadeiriol' Barca – Clwb Pêl-droed Barcelona – wrth gwrs!

Ond mangre mwy cysegredig a ddenodd ein sylw a'n rhyfeddu. Hyd yn oed o uchelfannau Montjuic, gyda charthen plethiad strydoedd ac adeiladau Barcelona yn ymestyn o'n blaenau, roedd meindyrau unigryw La Sagrada Familia yn codi'n osgeiddig i'r awyr i nodi'r safle. Dechreuwyd ar y gwaith o godi ail eglwys gadeiriol yn Barcelona yn niwedd y 1870au, ac ym 1882 ymunodd Antoni Gaudi â'r project. Erbyn 1883, ac yntau'n 33 oed, ef oedd yng ngofal y gwaith, a'i ddawn bensaernïol a thechnegol yn newid cyfeiriad cynllunio'r cysegr i'r teulu sanctaidd.

Roedd Gaudi yn cael ei gyfrif yn un o benseiri blaengar ei oes. Gwelir sawl enghraifft o'i waith creadigol ac anghonfensiynol yn britho Barcelona – y Pedrera, y Casa Batilo a Pharc Guell. Does dim rhyfedd fod rhai yn galw Barcelona yn 'ddinas Gaudi'.

Y tlodion fydd yn dioddef gyntaf o'r holl bethau hyn, ond nid y tlodion sy'n defnyddio ynni ffosil. Y cyfoethog sy'n gwneud hynny. Felly, rhaid i ni dorri'n ôl. Ond, ar yr un pryd, rhaid galluogi'r gwledydd tlawd i ddatblygu. – "Nid yw byw heb drydan yn rhinweddol nac yn ddiddorol ... Eto mae bron i draean poblogaeth y byd heb ynni dibynadwy," medd yr adroddiad. Yn ôl Exxon Mobil bydd angen 40% yn fwy o ynni ar y byd erbyn 2020. Ond bydd rhaid i allyriadau nwyon tŷ gwydr gyrraedd eu huchafbwynt erbyn 2015 a dechrau gostwng wedyn os ydym am osgoi'r gwaethaf. Sut mae cymodi'r ddau beth?



Rhaid i'r gwledydd cyfoethocaf leihau eu hallyriadau carbon deuocsid. Yng nghyd-destun newid yr hinsawdd rhaid i'n hawydd ni i helpu'r tlodion ddechrau gartref.  Rhaid i lywodraethau Prydain ac Iwerddon ysgogi chwyldro datblygiadol yn seiliedig ar gynaladwyedd, a fydd yn gwarchod adnoddau naturiol, yn diffinio a gweithredu datblygiadau cynaladwy, ac yn  gosod datblygu cynaladwy yn lle twf macro-economaidd.

Bydd hyrwyddo a hwyluso ynni adnewyddol yn y gwledydd tlotaf yn rhoi iddyn nhw ffynonellau ynni dibynadwy yn annibynnol ar unrhyw grid canolog. Gall manteision anferth o ran addysg, iechyd, cyfathrebu, a chynhaliaeth ddeillio o hynny.

Cred Cymorth Cristnogol, uwch popeth arall, fod hawl gan bobl dlawd i ddatblygu a byw bywydau hir, urddasol a chynhyrchiol. Dyletswydd y gwledydd cyfoethog yw sicrhau hynny.

Os nad yw hyn i gyd wedi argyhoeddi bod angen gwneud rhywbeth, a hynny ar frys, cofiwch – "Efallai mai'r tlodion fydd yn dioddef gyntaf, ond fe ddaw tro'r gweddill ohonom hefyd, heb unrhyw amheuaeth."

*Llinos Dafis*

*Hinsawdd tlodi: ffeithiau, ofnau a gobeithion*

(Adroddiad Cymorth Cristnogol, Mai, 2006)

Asiantaeth yr eglwysi yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon yw Cymorth Cristnogol. Ni piau hi ac mae gennym le i fod yn falch ohoni. Rhoi Terfyn ar Dlodi oedd ei phrif ymgyrch y llynedd. Eleni, Newid yr Hinsawdd sy'n cael sylw, a hynny am fod tlodi a newid hinsawdd ynghlwm wrth ei gilydd. Mae'r adroddiad, sy'n ffrwyth ymchwil trylwyr, yn rhoi darlun sobreiddiol ac ar yr un pryd yn dangos ffordd radical ac adeiladol ymlaen. Gobeithio caiff e'r sylw dyladwy.

Mae'r hinsawdd yn newid. Does neb yn amau hynny bellach. Daeth y Panel Rhyngwladol ar Newid yr Hinsawdd (IPCC) i'r casgliad bod gweithgaredd pobl yn peri i'r ddaear gynhesu. Mae barn bendant hefyd bod y cynnydd diweddar mewn "digwyddiadau tywydd eithafol" yn gysylltiedig â'r newid.

Llosgi glo, olew a nwy yw'r rheswm pennaf drosto. Mae'r carbon deuocsid a gynhyrchir wrth losgi'r tanwydd ffosil hynny, a rhai nwyon eraill, wedi ffurfio haen o amgylch y byd sy'n cloi gwres i mewn. Dyma'r nwyon tŷ gwydr.

**Beth fydd canlyniadau newid yr hinsawdd?**

Heintiau a marwolaethau – oherwydd y gwres eithafol a'r diffyg dŵr, ac am fod cynefinoedd y trychfilod sy'n cario heintiau angheuol yn lledaenu, a thrychinebau naturiol a rhyfeloedd yn tanseilio glanweithdra, a hynny'n arwain at afiechydon fel colera a theiffoid.

Sychder a newyn – Mewn gwledydd tlawd mae dŵr yn adnodd prin a gwerthfawr. Mae diffyg dŵr yn difetha cnydau, ac yn lladd pobl ac anifeiliaid.

Llifogydd – Mae cynhesu bydeang yn achosi llifogydd am fod lefel y môr yn codi a chynnydd yn rhuthr y dŵr o'r mynyddoedd.

Gwrthdaro a rhyfeloedd – Pan fo adnoddau – dŵr, bwyd, cnydau, anifeiliaid – yn brin, salwch a marwolaeth ar gerdded, a phoblogaethau'n gorfod symud i chwilio am gynhaliaeth, dyna pryd ceir ymgiprys, gwrthdaro, ymladd a lladd.



Tyfodd ei ymlyniad i'r cywaith enfawr hwn – sy'n dal yn anorffenedig – gyda'r blynyddoedd. Dyfnhawyd credo Catholig Gaudi, a'i fwriad oedd cael mawrygu Duw drwy ei waith. Gadawodd gynlluniau manwl ar ei ôl pan fu farw'n ddisymwth o ganlyniad i ddamwain gyda thram ym 1926. Er i nifer o'r cynlluniau hynny gael eu difa yn ystod cyfnod y Rhyfel Cartref yn y 1930au, roedd digon yn weddill, a chyda gwybodaeth ei gydweithwyr llwyddwyd i ailafael yn y gwaith. Felly, tua 125 o flynyddoedd er ei ddechrau, mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen – gan obeithio y bydd y cyfan wedi ei gyflawni erbyn 2017.

Ni allem ond rhyfeddu at fawredd y cynllun, yr adeiladwaith, y creadigrwydd a'r crefftwaith: y meindyrau anhygoel, y colofnau cryf gosgeiddig, y cerflunwaith manwl a chain, Porth y Geni yn cyfuno byd natur a dynoliaeth mewn addoliad i'r Crist newydd-anedig a Phorth y Dyrchafiad, modern ei wedd, yn olrhain taith Crist i'r Groes a'i ddyrchafael wedi'r atgyfodiad. Serch prysurdeb y gwaith parhaus a sisial ymlusgo ein cyd-ymwelwyr o'n cwmpas, teimlem ryw lonyddwch addolgar o fewn y gragen ddyrchafedig hon. Gallem ymdeimlo bod Duw a Christ yn cael eu mawrygu yn y gwrthrych anhygoel hwn. Does dim rhyfedd fod Gaudi yn cael ei gydnabod hefyd fel 'pensaer Duw'.

Wele ninnau yn y Garn mewn cyfnod pan ymddengys bod trai ar lawn ein crefydd, a'n bod, yn ôl rhai, ar ddechrau cyfnod a all fod yn ansicr. Ond efallai y gallem fyfyrio ar gyfraniad ac ymroddiad Gaudi. Cynyddu a chryfhau wnaeth ei ffydd serch anawsrerau di-ri; rhannodd weledigaeth gadarn fel y gallai eraill ddilyn ar ei ôl, a hefyd gosododd gynlluniau pendant yn eu lle fel bod trefn ar y dilyniant.

Rydym ninnau'n etifeddu cadernid credo Cristionogol yn enw Crist. Mae'r Parchedig R W Jones a'i ragflaenwyr parchus a gweithgar wedi gosod i ni sylfaen ysbrydol ac ymarferol ein crefydd a'n gweithgaredd. Rhaid i ninnau, yn arbennig yn ystod y cyfnod di-fugail hwn, drwy gydweithredu a thrwy gynnal ein gilydd, ymarfogi yn ein ffydd er sicrhau dyfodol llewyrchus i deyrnas yr Arglwydd y mae'n fraint i ni gyfranogi ohoni.

*Paid ag ofni'r anawsterau …*
*cred yn Nuw a gwna dy waith.*

Dewi G Hughes

## Eglwys Bresbyteraidd Cymru

### Apêl Gwanwyn 2006 – Rhwymo'r Briw yn Rhwymau'r Efengyl

Anaml y daw cyfle i wneud apêl am gydweithrediad i **atal** trychineb. Yn amlach na pheidio, apêl am ymateb parod i argyfwng a geir.

Eleni mae apêl EBC yn gofyn i chwi gefnogi gweithgarwch strategol i **atal** ymlediad HIV/Aids ym Mizoram, gogledd-ddwyrain India.



Y nod yw cyfrannu at ymdrech yr eglwys a'r awdurdodau ym Mizoram trwy **rannu arbenigedd o Gymru** ym meysydd hybu iechyd, hyfforddiant a thriniaeth uniongyrchol.

Mae angen datblygu **rhaglenni strategol** a **gweithgarwch ymarferol** a chreu partneriaethau allweddol**.**

Ar hyn o bryd, mae lefelau HIV/Aids yn gymharol isel ond mae'r afiechyd yn dechrau ymledu i'r boblogaeth gyffredinol. NAWR yw'r amser i weithredu.

Oherwydd y berthynas glòs hanesyddol sydd rhwng Cymru a Mizoram, credwn fod yma gyfle i ni gyfrannu'n effeithiol ar sail adnabyddiaeth. Yr ydym, yng Nghymru, wedi cael profiad helaeth o atal HIV/Aids yn gymharol llwyddiannus. Dyma gyfle, felly, i rannu'n profiad a'n harbenigedd.

Nid yw'r bygythiad cyfoes yma yn gyfyngedig i Mizoram. Bwriedir, felly, dros amser, ddysgu'r gwersi a rhannu'r profiadau â'r synodau eraill yn India.

*I wneud hyn mae angen cefnogaeth ariannol. Ein gobaith yw y byddwch fel eglwysi yn ymateb wrth gyfrannu* ***£1 yr aelod*** *at y gwaith hanfodol hwn. Mae angen codi £30,000 cychwynnol i gyfarfod â'r costau. Diolch ymlaen llaw am weithredu trwy eich cyfraniadau i atal trychineb.*

## Medi


| | |
|---|---|
| 3 | Parchg J R Jenkins |
| 10 | Parchg Tudor Davies<br>Yr ysgol Sul yn ailddechrau |
| 12 | Cyfarfod Dosbarth y Garn a Phenllwyn<br>Capel y Garn am 7 o'r gloch<br>Agoriad i'r Maes Llafur gan Mr Walford Gealy |
| 13 | Grŵp Help Llaw yn ailddechrau<br>yn y festri am 2.30 o'r gloch |
| 17 | Ms Beti Wyn Holmes |
| 24 | Parchg W J Edwards<br>Cymun yn oedfa'r bore<br>Gwasanaeth yr hwyr ym Methlehem, Llandre |

*Yr oeddwn yn llawen pan ddywedasant wrthyf,*
*"Gadewch inni fynd i dŷ yr Arglwydd"*

Beth am ymuno gyda ni i gydaddoli ar fore neu nos Sul – bydd croeso cynnes i chi.

Rydym yn gwerthfawrogi ffyddlondeb y rhai sy'n bresennol o Sul i Sul, ond byddem yn arbennig o falch o weld wynebau newydd. Os nad ydych wedi bod mewn oedfa ers sbel, beth am droi i mewn atom ar ddechrau 'tymor newydd' yng ngweithgareddau'r eglwys.

*Crefydd a'r We*




Yn ddiweddar, lansiwyd gwefan crefydd newydd BBC Radio Cymru, sef www.bbc.co.uk/cymru/crefydd/

Mae'n cynnwys newyddion, erthyglau amrywiol, cwis Beiblaidd, dyfyniadau o'r Beibl a straeon doniol. Ceir adran ar hanes crefydd yng Nghymru, yn ogystal â 'Llusern', sef llwyfan ar gyfer trafod materion crefydd yng Nghymru, ac y mae gwahoddiad i unrhyw un gyfrannu a mynegi barn.

Mae blwyddyn wedi pasio ers pan lansiwyd www.capelygarn.org, sef gwefan Capel y Garn. Yn ystod y flwyddyn yma, mae tua 5,500 o bobl wedi edrych ar y wefan o gyfanswm o dros 30 o wledydd, yn cynnwys bron 250 o 'ymweliadau' o'r Almaen, a rhai cyn belled ag Awstralia, Malaysia, Costa Rica, Japan, yr Arfordir Ifori, India a Rwsia. Y tudalennau mwyaf poblogaidd yw'r dudalen hafan a'r oriel.

Mae llawer o bobl wedi cyfrannu mewn sawl ffordd at wefan y Garn – rhai wedi ysgrifennu pytiau neu adroddiadau, eraill wedi tynnu lluniau ar gyfer y wefan (diolch yn arbennig i Ian Cole) neu wedi rhoi benthyg hen luniau i'w sganio.

Mae croeso i unrhyw un gyfrannu, ac fe hoffem weld rhagor yn gwneud hynny. Felly, os oes gennych luniau, atgofion, myfyrdod, adroddiad am weithgaredd, newyddion, ac yn y blaen, byddwn yn falch iawn o'u cael.

Hefyd, os oes gennych syniadau sut i ddatblygu'r wefan neu yr hoffech chi ymateb i her newydd a dysgu sut i lwytho deunydd ar y wefan – ac mae wir yn hawdd iawn – yna, cysylltwch efo fi.

Os nad oes gennych chi gyswllt â'r We ac yr hoffech weld gwefan y Garn, byddaf fwy na pharod i'w dangos i chi.

*Marian B Hughes*

**Gorffennaf**

| | |
|---|---|
| 2 | Aled Lewis Evans<br>Casgliad arbennig at Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru<br>'Rhwymo'r Briw yn Rhwymau'r Efengyl' |
| 9 | Parchg M J Morris<br>Cymun yn oedfa'r bore |
| 16 | Hywel Slaymaker<br>Trip blynyddol yr ysgol Sul |
| 23 | Parchg Peter Thomas |
| 30 | Parchg Ifan Mason Davies |

**Awst**

| | |
|---|---|
| 6 | Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore |
| 13 | Y Tad Harding Rees |
| 20 | Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore<br>Parch Gwyn Morgan |
| 27 | Parchg Lewis Wyn Daniel |

***Lithuania***

Carwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y rhodd hael y cefais y fraint o'i chyflwyno i'r Dr Mildai Naujokaitienel, sy'n gweithio am gyflog fach yn y ganolfan i blant anabl yn ymyl y Cwfaint yn Pastuva. Bydd eich cyfraniad chi o gymorth mawr i hybu'r gwaith da a gyflawnir yno. Cawsom groeso mawr yn y Cwfaint a bu'r ymweliad yn agoriad llygad ac yn fodd inni gyfrif ein bendithion. Diolch am bob cefnogaeth.

*Gwenda Edwards*

### *Chwiorydd y Garn*

Cynhaliwyd noson goffi'r chwiorydd eleni yn ysgoldy Bethlehem, Llandre, nos Wener, 5 Mai, gyda'r blaenoriaid yng ngofal y stondinau. Gwnaed elw o £378 a throsglwyddwyd £250 ohono i gronfa'r Eglwys.

Codwyd swm o £416 yn dilyn cinio Bara a Chaws ar ôl oedfa undebol bore Sul, 21 Mai, er budd Cymorth Cristnogol. Trosglwyddwyd yr arian i drefnydd lleol Cymorth Cristnogol.

Y mae angen cadeirydd ac ysgrifennydd ar Bwyllgor y Chwiorydd. Tybed a oes unrhyw un yn fodlon gwirfoddoli i helpu allan?


### *Mynwent y Garn*

Dymunwn ddiolch i Mrs Mair Evans am y rhodd o goeden hardd i'w phlannu ar flaen y fynwent. Mae angen rhyw ddwy goeden liwgar arall i lanw'r gwagle. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Mr Eddie Jones.

Gobeithiwn gael digon o arian i roi tarmacadam ar yr unig lwybr sydd yn awr heb ei dario yng ngwaelod y fynwent. Bydd unrhyw rodd yn dderbyniol.

Arglwydd, diolchwn am yr adnewyddiad
a rydd gwyliau i'n bywyd:
am gyffro'r disgwyl a'r cynllunio;
am ryddid oddi wrth ddyletswyddau bob dydd;
am brofiadau a chyfleon newydd.

Rhoddaist fyd rhyfeddol i ni:
ble bynnag yr awn fe'n hamgylchynir
gan bethau sy'n bleser i'n llygaid
ac yn faeth i'r meddwl.



Helpa ni i ddefnyddio'n gwyliau
i ganfod dy ogoniant di yn dy greadigaeth;
i ddefnyddio'n rhyddid i ddeall yn gliriach
y cyflawnder bywyd yr wyt ti'n ei gynnig i ni'n barhaus.

Derbyn ein diolch am gyfoeth amrywiol bywyd,
dy rodd di i ni;
a phan ddaw ein gwyliau i ben,
arwain ni'n ôl i'n cartrefi yn ddiogel,
wedi'n hadnewyddu a'n hysbrydoli
o gael gorffwys a chael mwynhau
rhyfeddodau dy fyd di.

*Roy Chapman*
(*Amser i Dduw*, gol. Elfed ap Nefydd Roberts)